**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o**
**Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**
**12 Hydref 2023, 09:00**
**Cynhaliwyd yn 2 Capital Quarter a thros Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Kate Eden | (KE) | Cadeirydd y cyfarfod, Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (*ymunodd â'r cyfarfod am 09:20*) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant (Canolfan Gydweithredol WHO) (ar gyfer eitem 3.3) |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd, ar ran Jim McManus (gadawodd am 11:00). |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (am ran o'r cyfarfod, gadawodd am 10:15) |
| Eleri Davies | (ED) | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Phennaeth y Rhaglen Heintiau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (ar gyfer eitem 3.8.1) |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr Sgrinio (ar gyfer eitem 3.2) |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant (ymunodd â'r cyfarfod am 11:58) |
| Christopher Thomas | (CT) | Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol |
| Ruth Tofton | (RT) | Rheolwr Datblygu Busnes/y Gweithlu, Rhaglenni Diogelu Iechyd (Arsylwi) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| Caroline Whittaker | (CW) | Rheolwr Arweiniol Proffesiynol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Safonau (ar gyfer eitem 3.8.2) |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru (ar gyfer eitem 3.2) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (Interim) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd yr Undeb Llafur |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:00*

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai’r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/2** | **Datgan Buddiannau** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/3** | **Eitemau er Sicrwydd** |
| **QSIC 12/10/2023/3.1** | **Cynllun Gweithredu ar Dwbercwlosis (TB) – Diweddariad ar ei Weithredu** |

Cyflwynodd AJ yr adroddiad, a amlinellodd y cynnydd a wnaed yn erbyn y saith argymhelliad a wnaed ar y cyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn dilyn adolygiad annibynnol mewn ymateb i’r achosion o Dwbercwlosis yr oedd eu canolbwynt yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin.

Amlygodd AJ y rôl arwain y system yr oedd y Sefydliad wedi ymgymryd â hi a nododd welliannau ar draws y system ar lefel Cymru gyfan, a datblygiad cynllun gweithredu gydag arweinwyr a nodwyd i ddatblygu’r argymhellion ar lefel leol.

Nododd LB y bwriad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rannu ei adroddiad ynghylch ei gamau gweithredu yn erbyn yr argymhellion, a allai roi sicrwydd ychwanegol i’r Pwyllgor ynghylch y cydweithio rhwng y ddau sefydliad i gyflawni’r argymhellion ar y cyd.

Diolchodd y Pwyllgor i AJ am ei ddiweddariad, gan nodi mai hwn oedd iteriad cyntaf yr adroddiad hwn.

Awgrymodd y Pwyllgor:

- Y dylai iteriadau'r adroddiad yn y dyfodol egluro'r rolau amrywiol, a rhannu'r argymhellion a'r camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Eglurhad pellach ynghylch amserlenni, ac ystyriaeth o'r system sgorio coch, melyn a gwyrdd posibl,
- Y dylid ystyried y trefniadau llywodraethu cyffredinol, gan gynnwys sesiwn bosibl ar y cyd o'r Bwrdd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i fyfyrio ar y system gyfan a chymeradwyo'r camau gweithredu yn erbyn yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar Dwbercwlosis Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn adolygiad allanol o'r dull o reoli'r achosion yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin, ac mae'n edrych ymlaen at ystyried diweddariad pellach sy'n adlewyrchu awgrymiadau'r pwyllgor yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024.
**Camau Gweithredu: MK/LB**

| QSIC 12/10/2023/3.2 | Adroddiad Archwilio Cymru ar Sgrinio, ac Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|

Rhoddodd VW gyflwyniad i grynhoi adolygiad Archwilio Cymru o'r trefniadau i adfer y gwasanaethau sgrinio (rhaglenni sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol, Bron Brawf Cymru a Llygaid Diabetig) a'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol a wnaed, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch y gwaith o adfer gwasanaethau sgrinio yn ystod cyfnod heriol. Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

Ychwanegodd SH fanylion am yr adroddiad, gan gyfeirio at ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r argymhellion ynghylch y galw am y gwasanaeth a'r capasiti, y gweithlu a'r goblygiadau o ran adnoddau, a'r gweithgaredd perfformiad a ystyriwyd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Pwyllgor gefnogaeth a diolchodd i SH am ei arweinyddiaeth ac ymdrechion ei thîm i adfer y rhaglenni sgrinio, a diolchodd i VW am yr adroddiad defnyddiol a chytbwys.

Trafododd y Pwyllgor:

- a chytunodd y byddai TC yn anfon llythyr at y Tîm Adfer Sgrinio i ddiolch am ei gefnogaeth.

**Camau Gweithredu: TC**

- Cyfeiriodd at y drafodaeth flaenorol gan y Pwyllgor ynghylch materion cymdeithasol a'r cyd-destun ehangach mewn perthynas â'r galw sy'n cynyddu am ofal diabetig,
- Ystyriodd y cydweddiad â'r gwaith ehangach o gynllunio'r gweithlu, ac ar lefel Cymru gyfan, a recriwtio i swyddi arbenigol i fodloni'r galw oherwydd twf,
- Trafododd y gwaith sydd ar y gweill i adolygu agweddau ar y dangosfwrdd perfformiad a'r gweithlu.

Aeth SH ymlaen i wneud cais am adborth gan y Pwyllgor ar iteriadau'r diweddariad am sgrinio i'r Pwyllgor yn y dyfodol, a oedd wedi canolbwyntio'n flaenorol ar adfer y gwasanaethau sgrinio. Roedd y Pwyllgor yn awyddus y byddai'r iteriadau yn y dyfodol yn ystyried y gwaith o adfer y gwasanaethau a datblygiadau yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar ansawdd.

Trafododd y Pwyllgor:

- Ddatblygiad y gallu ymchwil gweithredol at ddibenion modelu ar draws y Sefydliad; gan nodi y byddai TC yn parhau â'r drafodaeth gyda JB ac CB ynghylch y cymorth gan Gwelliant Cymru,
- Y gofynion adrodd gan ystyried y Ddeddf Dyletswydd Ansawdd, a mabwysiadu dull strwythuredig ar gyfer cyflwyno data cyfres amser addysgiadol a fyddai'n arddangos y llwybr yn erbyn y cynllun,
- Y dylid cryfhau llais y dinesydd ac adborth staff drwy gynnwys gwybodaeth am fodlonrwydd/profiad defnyddwyr y gwasanaeth sy'n fyw ac ystwyth.

Gofynnodd y Pwyllgor i SH gysylltu â JB ac Iain Bell, y Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Ymchwil a Gwybodaeth, i gynhyrchu papur opsiynau. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweithdy yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor i ystyried y pwyntiau hyn yn fwy manwl.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch ymateb y rheolwyr i Adroddiad Archwilio Cymru ar adfer y gwasanaethau sgrinio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| **QSIC 12/10/2023/3.3** | **Rheoli Risg (Cofrestr Risgiau Strategol)** |
|---|---|

Cyflwynodd AC yr adroddiad ar Risgiau Strategol, gan nodi y byddai fersiynau yn y dyfodol yn cynnwys cyfeiriad penodol at yr Ymchwiliad Cyhoeddus o fewn risgiau 5 a 6.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau ar bob un o'r Risgiau Strategol, gan nodi:

- RS1: Amlygodd JB y cyfle i gryfhau yn fwy amlwg rôl y Sefydliad o ran sicrhau bod data ar gael i'r system ehangach o gwmpas risgiau i'r boblogaeth, ein rôl liniaru, a'r mynegiad gwell o gwmpas sgrinio a'r effaith ar y boblogaeth,
- RS2: nododd JB y bwriad i egluro a diweddaru'r risg i adlewyrchu'r newidiadau ar lefel y system a'r angen i adolygu'r amserlenni sy'n ymwneud â'r elfen gofal iechyd y cyhoedd. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried cyffredinolrwydd clefydau ac atal diabetes o fewn hyn,
- RS3: amlygodd SA y gwaith o gwmpas Gwyddor Ymddygiad, gan gyfeirio at sesiwn o'r Bwrdd yn y dyfodol a fyddai'n edrych ar wneud y mwyaf o adnoddau i gael effaith, a datblygiad cynllun strategol i feithrin capasiti a gallu ar draws y sefydliad. Gan gyfeirio at y newid i 20 milltir yr awr, trafododd y Pwyllgor rôl system ehangach y Sefydliad mewn perthynas â gweithio ar draws y llywodraeth i ddarparu gwybodaeth am ddata, gan sicrhau ymwybyddiaeth o negeseuon iechyd cyhoeddus i gefnogi'r boblogaeth, a nododd y byddai'r Sefydliad o bosibl yn edrych ar gynnal darn o ddysgu i hysbysu'r ymdrechion yn y dyfodol yn well,
- RS5- Amlygodd AJ y gwaith sydd ar y gweill o ran sganio'r gorwel a'r ymateb Diogelu Iechyd,

- RS6**-** nododd AJ y diweddariadau cadarnhaol mewn rhai meysydd heriol, fel microbioleg a darparu gwasanaethau. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i gysylltu â Meng Khaw, y Swyddog Gweithredol Arweiniol, i adolygu'r sgôr risg, gan sicrhau bod y gwaith sydd ar y gweill i adfer y gwasanaethau sgrinio wedi'i adlewyrchu'n gywir yn y sgôr risg. Cytunodd hefyd i adlewyrchu ar nifer fawr o risgiau strategol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

**Camau Gweithredu: PV/MK**

Ystyriodd y Pwyllgor y gofrestr risg strategol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor a chafodd ei **sicrhau** ynghylch rheoli'r risgiau strategol hynny o fewn y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/3.4** | **Diweddariad ar Weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd** |

Cyflwynodd AC yr adroddiad, a roddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Nododd AC y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gan amlygu'r ffaith bod un achos a gadarnhawyd sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gau, a'r gwaith sydd ar y gweill i ddechrau adrodd ar gydymffurfiaeth â'r pecyn hyfforddiant, a chynnal a chomisiynu'r trefniadau sy'n cael eu datblygu.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr un achos hwnnw'n cyd-fynd â'r disgwyliad. Cadarnhaodd AC fod hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliad ar y pwynt hwn, gan nodi ei bod yn debygol y bydd yr achosion niwed 'canolig i ddifrifol' yn cael eu nodi'n adolygol, a byddant yn berthnasol o ddyddiad gweithredu'r Ddeddf yn unig, ar 1 Ebrill 2023.

Aeth JB ymlaen i roi diweddariad yn erbyn y camau i weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd, gan nodi'r gwaith sydd ar y gweill: o fewn Uned Busnes y Bwrdd ynghylch y broses gwneud penderfyniadau drwy'r lens Dyletswydd Ansawdd, a adlewyrchwyd mewn carreg filltir a addaswyd i fis Mawrth 2024; gwaith o gwmpas y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad; strwythur yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a'r gwaith o ddiweddaru presenoldeb y sefydliad ar y we, sy'n cael ei arwain gan Iain Bell.

Nododd y Pwyllgor y byddai ystyriaeth o'r gwaith o ddatblygu'r wefan gan y Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth yn fuddiol, ac aeth ymlaen i ofyn i LB edrych ar hwyluso gwaith ar y cyd rhwng holl Bwyllgorau'r Bwrdd ynghylch materion y gweithlu.

**Camau Gweithredu: LB**

Diolchodd y Pwyllgor i AC a JB am eu diweddariadau a chafodd ei **sicrhau** ynghylch y cynnydd a wnaed i fodloni gofynion y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/3.6** | **Cynllun Gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu a'r Diweddariad Canol Blwyddyn** |

Cyflwynodd AC yr adroddiad, gan grynhoi sefyllfa hunanasesu flynyddol y Sefydliad yn erbyn offeryn Matrics Aeddfedrwydd Diogelu 2023-24, a diweddariad canol blwyddyn ar waith y Grŵp Diogelu mewnol i arddangos y gwaith a'r gwelliannau

parhaus i ddiogelu oedolion a phlant dros y chwe mis nesaf. Amlygodd AC yr angen i ganolbwyntio ar hawliau plant, ac roedd hwn yn cael ei blethu drwy Ddiogelu fel darn allweddol o waith, fel yr arddangoswyd gan y gwaith a gynlluniwyd gyda'r Llysgenhadol Ifanc ym mis Chwefror 2024.

Roedd y Pwyllgor yn hapus i weld iteriad newydd yr adroddiad, a'r ffocws ar hawliau plant, a chafodd **sicrwydd** bod Cynllun Gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelwch a gwaith cysylltiedig y Grŵp Diogelu wedi sicrhau bod trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl ar waith ac yn cael eu monitro.

| **QSIC 12/10/2023/3.7** | **Diweddariad Canol Blwyddyn y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau** |
|---|---|

Cyflwynodd AC yr adroddiad canol-blwyddyn, gan grynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gwaith Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer 2023-24.

Amlygodd AC ddechrau'r rhaglen brechu rhag y ffliw flynyddol, a oedd â dull darparu cymysg, ac mae gwaith ar y gweill i geisio ateb i broblem gyda'r system cofnodi brechiadau, gyda chefnogaeth gan Iain Bell a Gofal Iechyd Digidol Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad llafar ar y trafodaethau â Gofal Iechyd Digidol Cymru yn y cyfarfod nesaf i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn ymwybodol o'r materion hyn.
**Camau Gweithredu: AC**

Gorffennodd AC y crynodeb o'r adroddiad drwy amlygu'r rhaglen archwilio Atal a Rheoli Heintiau y mae disgwyl iddi gael ei gweithredu ym mis Ionawr 2024, a'r capasiti llai i gynnal adolygiadau o'r polisïau sy'n weddill oherwydd y capasiti llai yn y gweithlu, er bod nifer wedi'u hadolygu ac yn destun ymgynghoriad ledled y Sefydliad.

Myfyriodd y Pwyllgor ar nifer y cerrig milltir a oedd wedi newid yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ac amlygodd y mater perthnasol o adolygu polisïau mewn modd amserol. Drwy gyfeirio at y diweddariad ddwywaith y flwyddyn ar bolisi yn ddiweddarach ar yr agenda, rhoddodd LB sicrwydd ynghylch y gwaith ar raddfa fawr sydd ar y gweill i adolygu a diweddaru'r polisïau.

Cafodd y Pwyllgor ei **sicrhau** o'r adroddiad canol-blwyddyn hwn fod y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (Corfforaethol) wedi sicrhau bod y Sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes hwn.

| **QSIC 12/10/2023/3.8** | **Teuluoedd Swyddi** |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/3.8.1** | **Adroddiad Cynnydd Ailddilysu 2022/23** |

Rhoddodd ED drosolwg o'r adroddiad, a oedd yn crynhoi'r gwaith arolygu effeithiol o'r broses ail-ddilysu ar gyfer cydweithwyr meddygol yn ystod 2022/23, a datblygiad tîm y Swyddfa Cyfarwyddwyr Meddygol i gefnogi'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer ail-ddilysu. Cefnogwyd hyn gan yr adroddiad ailddilysu a gyflwynwyd i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a ddarparodd fwy o fanylion am y broses a'r llwyddiant o ran goruchwylio ailddilysiad cydweithwyr meddygol.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Nodi bod nifer o ymgynghorwyr proffesiynol wedi'u cyflogi, ac nad oedd yr arfarnwyr wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd â chefndir meddygol.
- Nodi mai'r Sefydliad oedd y swyddog sy'n gyfrifol am staff meddygol a nyrsio o fewn Gweithrediaeth y GIG; byddai diweddariadau'n cael eu darparu ar iteriadau'r adroddiad blynyddol yn y dyfodol,
- Ystyried y diweddariad llafar yn sgil ymweliad diweddar gan AaGIC, gan nodi bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi ynghylch y cynnydd a gofnodwyd o ran y trefniadau ar gyfer ailddilysu a chefnogi'r corff ymgynghori. Roedd y meysydd gwelliant a nodwyd yn canolbwyntio ar yr angen i roi proses Sicrwydd Ansawdd Mewnol systematig ar waith ar gyfer y broses arfarnu.

Diolchodd ED i'r Pwyllgor am y diweddariad cynhwysfawr, a'r cynnydd cymeradwy a wnaed yn y maes hwn.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod prosesau ar waith i reoli a chefnogi'r gwaith o ailddilysu cydweithwyr sy'n feddygol gymwys ledled y sefydliad.

| **QSIC 12/10/2023/3.8.2** | **Archwiliad o'r trefniadau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gadarnhau'r cofrestriad proffesiynol gweithredol ar gyfer 2023/24 (Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal/ Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth)** |
|---|---|

Rhoddodd CW drosolwg o'r adroddiad ar yr archwiliad o'r trefniadau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer cadarnhau cofrestriad proffesiynol gweithredol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2022/23.

Cyfeiriodd CW at gynnwys ymarferwyr meddygol yn yr archwiliad am y tro cyntaf, gan arddangos dull integredig rhagorol a fyddai'n cael ei fireinio yn y dyfodol. Aeth CW ymlaen i gadarnhau, yn ystod 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, bod gan yr holl ymarferwyr iechyd cofrestredig yr oedd angen iddynt gael eu cofrestru ar gyfer eu rôl gofrestriad gweithredol ac na chafwyd unrhyw atgyfeiriadau cymhwyster i ymarfer yn ystod y cyfnod hwn. Gorffennodd CW y diweddariad drwy nodi bwriad CB ac MK i wneud cynnydd o ran recriwtio i swydd wag yr Arweinydd Proffesiynol dros Wyddonwyr Gofal Iechyd ac Ymarferwyr Perthynol i Ofal Iechyd.

Trafododd y Pwyllgor:

- Y broblem barhaus ynghylch cofnodi gwyddonwyr a hyfforddai biofeddygol yn gywir ar y Cofnod Staff Electronig. Nododd CW y bwriad i weithio gyda rheolwyr allweddol dros y 12 mis nesaf i wella'r cofnodion ar y Cofnod a byddai'n darparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn iteriad nesaf yr adroddiad.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gael ei **sicrhau** bod trefniadau ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod holl Gofrestrwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi'u cofrestru â'r corff rheoleiddio statudol priodol,

- Cael ei **sicrhau** bod system debyg ar waith ar gyfer yr holl Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Ymgynghorol.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/4** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 12/10/2023/4.1** | **Polisïau a Gweithdrefnau i'w Cymeradwyo** |

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol a:

- **Chymeradwyodd** y Polisi Diogelu
- **Cymeradwyodd** y Weithdrefn Oedolion sydd mewn Perygl
- **Cymeradwyodd** y Weithdrefn Plant sydd mewn Perygl
- **Cymeradwyodd** y Weithdrefn Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/4.2** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod** |

Nododd y Pwyllgor y byddai cofnodion y cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2023 yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023 i sicrhau bod yr aelodau a fynychodd y cyfarfod ym mis Gorffennaf yn gallu cadarnhau eu cywirdeb.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau ar y camau gweithredu agored, gan wneud cais i ddiweddariad ar y ddau gam gweithredu a oedd yn gysylltiedig â'r Gofrestr Risg Strategol gael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf, yn dilyn diweddariad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd, a **chymeradwyodd** y dylid cau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu

**Materion yn Codi: Trefniadau ar gyfer Dyfeisiau Meddygol**
Rhoddodd AJ ddiweddariad ynghylch y cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer rheoli dyfeisiau meddygol, gan nodi bod y polisi wedi'i ddiwygio yn nwylo'r Tîm Arweinyddiaeth i'w gymeradwyo o flaen llaw. Roedd disgwyl i'r polisi gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Aeth AJ ymlaen i gadarnhau bod MK wedi gwneud penodiad mewn perthynas â'r swydd Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer 2 sesiwn yr wythnos, ac roedd yn disgwyl cyfweld ar gyfer y swydd Arweinydd Dyfeisiau Meddygol yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Holodd y Pwyllgor ynghylch unrhyw gysylltiad perthnasol â chyfarwyddiaeth Iain Bell mewn perthynas â strwythur data. Cadarnhaodd AJ y byddai MK yn gweithio'n agos gydag Iain Bell ar hyn, a bod y polisi'n cyfeirio at yr angen i sicrhau bod problemau data a TG yn cael eu cynnwys fel dyfeisiau meddygol, gan nodi'r asesiadau gofynnol a wnaed.

| | |
|---|---|
| **QSIC 12/10/2023/5** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 12/10/2023/5.1** | **Safonau Iechyd a Gofal 2022-23** |

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** bod y broses Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig wedi'i chwblhau ar gyfer 2022-23. Nododd y Pwyllgor y byddai gofynion adrodd yn y dyfodol yn cael eu datblygu fel Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

| QSIC 12/10/2023/5.2 | Cofrestr o Bolisïau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig |
|---|---|
| **Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig Corfforaethol eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. | |
| **QSIC 12/10/2023/5.3** | **Diweddariad Cynllunio Tymhorol (Diogelu Iechyd)** |
| **Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** gan y diweddariad ar waith cynllunio a pharatoi a chynnydd y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Microbioleg ar gyfer Gaeaf 2023/24.<br><br>Gan fyfyrio ar ddefnyddioldeb yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad gael ei rannu â'r grwpiau cyfoedion fel y Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr ar draws GIG Cymru.<br>**Camau Gweithredu: AJ/MK** | |
| **QSIC 12/10/2023/5.4** | **Fframweithiau** |
| **Nododd** y Pwyllgor y Fframwaith Llywodraethu Clinigol, y Fframwaith Goruchwyliaeth Glinigol a'r Fframwaith Gyrfaoedd a gymeradwywyd gan y Tîm Busnes a Gweithredol. | |
| **QSIC 12/10/2023/5.5** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2023-24** |
| **Nododd** y Pwyllgor y diweddariadau i gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-24. | |
| **QSIC 12/10/2023/6** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| **QSIC 12/10/2023/6.1** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Gofynnwyd i'r aelodau anfon e-bost at LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Rhagfyr 2023.<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 11:15* | |